COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored - 11.00 a.m., Dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2023
Cyfarfod hybrid a gynhaliwyd yn 9 Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd
ac mewn sawl lleoliad arall, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Busnes Agored y Cyngor - cofnodion 1 i 14.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (yn cadeirio), Jan Tiley, Chris Franks, Stephen Nicholls, Judith Evans, Tim Palazon, Sam Emmett, Salamatu Fada; Victory Ezeofor (hyd at gofnod 10 yn unig).
Hefyd yn bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Iola Llwyd (cyfieithydd ar y pryd). Hefyd Mary Jones a Ruth Stronge (dwy o enillwyr Gwobrau Ysbrydoli! ar gyfer Tiwtoriaid, 2023) a Paul Lewis (Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain/BSL) yn ystod cofnod 1 a 2 yn unig.
Ymddiheuriadau: Marion Burke, Cathy Clark, Jenni Jones-Annetts, Nicole Kinnaird, Dona Lewis, Siôn Aled Owen; Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad).
Cafwyd cworwm trwy gydol y cyfarfod, ac roedd chwech o bobl yn bresennol yn yr ystafell yng Nghaerdydd.

2. Cyflwyniad a thrafodaeth â dwy o diwtoriaid Addysg Oedolion Cymru - enillwyr gwobrau Ysbrydoli! 2023

Cafwyd y cyflwyniad cyntaf gan Mary Jones (a enwebwyd am y wobr Cyflawniad Gydol Oes gan Jayne Murphy, Cydlynydd Datblygu'r Cwricwlwm) a oedd ar fin ymddeol ar ôl bod yn athrawes BSL i'r Sefydliad ers dros 15 mlynedd. Ganwyd Mary yn fyddar, yn union fel sawl cenhedlaeth o'i theulu; ei dau or-ŵyr oedd yn awr y cyntaf yn y teulu heb unrhyw golled clyw. O Abertysswg yn wreiddiol, mynychodd hi'r Manchester School for the Deaf. Yn ei gyrfa addysgol o dros 20 mlynedd roedd hi wedi dysgu BSL i athrawon yn Ysgol Arbennig Greenfield, yng Ngholeg Merthyr Tudful ac awdurdod addysg Rhondda Cynon Taf cyn symud i Addysg Oedolion Cymru. Roedd hi wedi cael boddhad mawr yn cynorthwyo myfyrwyr i lwyddo i ennill cymwysterau Lefelau 1 a 2 BSL. Roedd yr heriau cyffredin yr oedd hi wedi'u profi yn cynnwys annog dysgwyr swil i fagu hyder a chwalu rhwystrau o ran eu defnydd o BSL, ac roedd hi wedi addasu ei thechnegau yn llwyddiannus i barhau i addysgu ar-lein yn ystod pandemig Covid-19. Dywedodd bod pwyntio bysedd a thapio ysgwyddau yn ddulliau cyfathrebu 'llaw fer' derbyniol i bobl fyddar, ond gallent ymddangos yn anghwrtais i rai pobl sy'n clywed. Gofynnwyd iddi hi pam yr oedd cyrsiau iaith arwyddion i famau a babanod yn ddefnyddiol ac yn cael eu cynnal yn amlach, a dywedodd hi eu bod yn ddull o gyfathrebu cyn datblygu lleferydd ac iaith sydd hefyd yn galluogi cyfranogwyr i ddysgu arwyddion sylfaenol. Dywedodd Kathryn Robson bod Mary wedi bod yn hynod o ysbrydolgar ond eto'n wylaidd iawn ynghylch ei llwyddiannau trwy gydol ei gyrfa yn AOC.

Roedd Ruth Stronge, tiwtor i un o bartneriaid AOC, wedi bod yn athrawes blynyddoedd cynnar ac addysg awyr agored cyn sefydlu Asynnod Eryri ger Bangor. Roedd cyfarfod ar hap â chydweithiwr yn AOC wedi

arwain at gynnig amrywiaeth o gyrsiau cymunedol yno, yn cynnwys 'Gwrando Clustiau Hir', sesiynau i blant cyn-ysgol a sesiynau dysgu i deuluoedd yn y coetir yng nghwmni'r asynnod. Gwnaed rhywfaint o ddefnydd o BSL yn y grŵp hwnnw, ac addysgwyd sgiliau gofalu am asynnod a garddio i'r oedolion hefyd. Roedd grant gan Blant mewn Angen wedi sicrhau cyrsiau ar gyfer pobl ifanc ddifreintiedig ac roedd nifer ohonynt wedi mynd ati i ddod yn wirfoddolwyr yn y lloches. Roedd AOC hefyd wedi cynorthwyo i gynnig cyrsiau achrededig am y tro cyntaf fel rhan o ysgol haf y lloches. Roedd rhai pobl ifanc wedi ailafael yn eu haddysg yn yr ysgol/coleg yn sgil bod yn lloches Asynnod Eryri, a gallu bod yn 'garreg sarn' iddynt oedd yn gwneud i Ruth deimlo'n fwyaf balch. Roedd Kathryn Robson wedi ymweld â'r lloches pan oedd gwers gelf yn ysgol y goedwig yn mynd rhagddi, felly gwelodd fioamrywiaeth yn cael ei addysgu yno hefyd, ac roedd yr asynnod yn cynnig presenoldeb therapiwtig. Yn ddiweddar, yr oedd rhywfaint o staff y lloches wedi cryfhau'r cysylltiad ag AOC trwy gyfranogi yn eu cwrs 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr'.

Roedd John Graystone wedi bod yn seremoni Gwobrau Ysbrydoli! yn gynharach yn ystod y flwyddyn, a phwysleisiodd bod y Sefydliad yn ymfalchïo'n fawr yn eu llwyddiannau, a diolchodd i'r ddwy diwtor ac i Paul Lewis, y dehonglydd BSL, am eu cyfraniadau. Fe wnaeth y tri adael y cyfarfod ar yr adeg hon.

3. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 30 Mawrth 2023 a materion yn codi

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod (hybrid) blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Cafwyd diweddariad ynghylch cofnod 2: ers hynny, yr oedd Simon Pirotte, Pennaeth Coleg Pen-y-bont, wedi cael ei benodi'n brif weithredwr CTER ar secondiad am ddwy flynedd, yn cychwyn ym mis Medi. Gallai hwn fod yn ddatblygiad buddiol, oherwydd byddai'n eiriolwr da dros faes Addysg Bellach a gallai wrthbwyso unrhyw or-bwyslais ar Addysg Uwch. Fodd bynnag, nododd Chris Franks bod Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wedi beirniadu'r ffaith fod y broses benodi agored ar gyfer rôl mor bwysig wedi'i hosgoi trwy wneud y swydd yn benodiad gan Weinidog yn hytrach na phenodiad cyhoeddus: serch hynny, nid oedd Mr Pirotte fel unigolyn wedi cael ei feirniadu mewn unrhyw ffordd.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr, Gorffennaf 2023

Cyflwyniad PowerPoint yn hytrach na dogfen ysgrifenedig oedd yr adroddiad, ac fe wnaeth Kathryn Robson a Cath Hicks rannu'r gwaith o roi'r cyflwyniad. Fel dilyniant i'r cofnod blaenorol, roedd Kathryn Robson wedi cael cyfweliad i fod yn aelod posibl o Fwrdd CTER yr wythnos flaenorol, a byddai'r canlyniad yn hysbys ddiwedd Gorffennaf neu Awst. Roedd y gwrthdaro buddiannau posibl yn sgil hynny wedi cael ei drafod yn ystod y cyfweliad. Ar wahân i hynny, wnaeth ColegauCymru ofyn am wirfoddolwyr i gynrychioli'r sector Addysg bellach ar y Cyngor Partneriaethau Cymdeithasol, ac roedd AOC wedi datgan ei ddiddordeb o'i wneud. Roedd y Cyngor Partneriaethau Cymdeithasol yn newydd, cadeirir gan y Prif Weinidog, ac yn cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr o bob sector.

Mewn perthynas â chymwysterau addysgu, a oruchwylir gan Gyngor y Gweithlu Addysg, yn y dyfodol bydd ar bob tiwtor addysg bellach angen cymhwyster addysgu Lefel 5, a byddai cyfnod gras ar gael o adeg cymeradwyo'r ddeddfwriaeth i'r sawl y bydd angen iddynt uwchraddio eu cymwysterau. Roedd hwn yn cynnwys holl staff addysgol AOC, gan ei fod yn Sefydliad Addysg Bellach dynodedig. Byddai cymwysterau Lefel 3 yn dal yn ofyniad i'r sawl sy'n addysgu ym maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn yr awdurdodau unedig, fodd bynnag. Fe wnaeth rhai aelodau o'r Cyngor fynegi pryder ynghylch beth fyddai oblygiadau hyn i'n tiwtoriaid, yn enwedig y rhai hynny sydd â llawer o brofiad ond na fyddai'n dymuno astudio am gymhwyster arall o reidrwydd, e.e. tiwtoriaid gwaith coed yn Hwb Dysgu Port Talbot (Uned 10). Roedd pryder hefyd y gallai rhai o diwtoriaid AOC gael eu recriwtio'n haws gan ddarparwyr addysg eraill oedd yn talu mwy, a gallai'r farchnad ddod yn fwy cystadleuol. Gan gofio bod y newid yn mynd i ddigwydd yn gynt na'r disgwyl, gallai tiwtoriaid yn gweithio i sefydliadau sy'n bartneriaid (e.e. Asynnod

Eryri) wynebu heriau mwy o ran cydymffurfiaeth. Sicrhaodd Cath Hicks yr aelodau bod 60% o'r staff eisoes yn meddu ar gymhwyster Lefel 5, ac efallai y byddai tiwtoriaid y partneriaid yn cael eu heithrio o ofynion y ddeddfwriaeth trwy eu categoreiddio'n "siaradwyr gwadd" ad-hoc gydag arbenigedd. Heb os, byddai angen rhagor o arian i sicrhau bod hyfforddiant ychwanegol ar gael i diwtoriaid, ac nid oedd yn eglur a fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu'r arian hwnnw ai peidio, er i'r gofyniad gael ei wneud.

Ymhlith datblygiadau eraill, roedd polisi Digidol 2030'r Sefydliad wedi'i gyflwyno (â chyfraniadau gan aelodau'r Cyngor), ac fel yn achos y Siarter Genedlaethol ar gyfer Dysgu Gydol Oes, roedd AOC yn cyfrannu at y broses ymgynghori ac yn cael ei weld yn gwneud hynny. Roedd un contract *Lluosi* wedi'i gadarnhau ac roedd 5 arall yn yr arfaeth, trwy law'r awdurdodau unedig; nodwyd fod cyfran sylweddol o arian *Lluosi* yn cael ei ddefnyddio i dalu am y fiwrocratiaeth gysylltiedig, yn hytrach na chynyddu nifer y myfyrwyr. Mewn perthynas â Chyfrifon Dysgu Personol, roedd AOC wedi cael £1.7 miliwn ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, ond roedd rhan helaeth o'r ddarpariaeth honno yn cael ei hallanoli. Roedd dinasyddiaeth weithgar yn dal yn thema bwysig mewn rhannau helaeth o'n gwaith, nid trwy'r blaengaredd Cwricwlwm Dinasyddion yn unig.

Yn y maes rhyngwladol, cafwyd newyddion da yn sgil cymeradwyo prosiect *Taith* ynghylch awtistiaeth ymhlith oedolion gan gysylltu AOC â Gwlad Groeg. Cafodd y sefydliad ei gynrychioli hefyd yn ystod ymweliad â Gwlad Thai, cadarnhawyd aelodaeth o Gymdeithas Addysg Oedolion Ewrop (EAEA) a sefydlwyd cysylltiadau newydd â Chymdeithas Addysg y Gweithwyr yn Lloegr a'r Alban. Roedd cysylltiadau diddorol newydd wedi'u creu hefyd ag Ymddiriedolaeth Shannon (ar gyfer carcharorion yn y DU) a Phrifysgol Nottingham/Sefydliad Raymond Williams. Cyfeiriodd Salamatu Fada at y potensial am ragor o gysylltiadau byd-eang ar faterion megis addysg i ferched yng nghefn gwlad neu hyfforddiant digidol.

O ran materion cydraddoldeb, byddai'r camau breision a gymerwyd i gwblhau cynllun gweithredu gwrth-hiliol yn cael eu hadlewyrchu mewn adnewyddiad o'r manylion yng Nghynllun Strategol ynghylch Cydraddoldeb AOC, gan ddarparu dull mwy cydlynol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Dywedodd un aelod o'r Cyngor ei bod hi'n amlwg fod Llywodraeth Cymru yn mynnu llawer iawn o bethau mewn perthynas â'r materion hyn ar y pryd, ac i osgoi ymrwymo i ormod o bethau dylai'r Sefydliad sicrhau ei fod yn cadw at flaenoriaethau eglur. O ran lleihau ystâd y Sefydliad, cafwyd diweddariad yn nodi y byddai'n parhau yn Nhŷ Dewi Sant yn y Drenewydd oherwydd yr oedd y landlord wedi cynnig swyddfeydd llai i weddu i anghenion AOC. Nodwyd mewn ymateb i gwestiwn bod y Sefydliad yn cadw llygad barcud ar ddatblygiadau gerllaw'r swyddfa yng Nghaerdydd oherwydd roedd mwy fyth o adeiladau uchel yn cael eu codi yno, gan wybod y byddai'r pwysau i ddatblygu safle ein swyddfa yn Iard y Cowper yn cynyddu ymhen amser.

Ynghylch dyfarniad cyflog 2022-23, roedd cynnig terfynol wedi'i wneud, sef cynnydd cyfunol o 1.5% ar ben y 5% oedd eisoes wedi'i roi yn y flwyddyn academaidd hon, ynghyd ag 1.5% ychwanegol unwaith-ac-am-byth (neu £375, yn dibynnu ar ba un oedd y mwyaf). Yr oedd y Pwyllgor Adnoddau wedi argymell y dylid cymeradwyo'r cynnig. **Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo hynny ar yr adeg hon, fel y gellid ei gynnwys yn y tâl cyflogau ym mis Gorffennaf**.

5. Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli: adroddiad cynnydd Gorffennaf 2023

Roedd yr wyth amcan cyffredinol wedi eu cymeradwyo yng nghyfarfod Ionawr y Cyngor, ac roedd diweddariad yn awr ar y cyfanswm o 45 amcan DPA CAMPUS mewn lle i ddarparu'r rheini, yn adlewyrchu'r Cynllun Strategol newydd a rhywfaint o bwyntiau ychwanegol yn deillio o ddigwyddiad cynllunio Stagbwll. Nid oedd hi'n ymarferol cyflawni'r holl ddangosyddion yn ystod y flwyddyn galendr hon, felly cafodd rhai eu dwyn ymlaen yn fwriadol i fisoedd penodedig yn 2024 yn unol â'r hyn a nodwyd

yn y papur. Roedd 7 amcan wedi'i gyflawni erbyn hyn ac roeddent wedi'u codio'n wyrdd. Roedd rhai o'r 8 amcan cyffredinol i'w cyflawni'n flynyddol ac eraill i'w cyflawni erbyn 2026.

6. Cyfrifon Rheoli am y deg mis rhwng 1 Awst 2022 a 31 Mai 2023

Rhagwelid diffyg bychan ar ddiwedd y flwyddyn (sef £24,000, llai na'r rhagamcan blaenorol) ond byddai'r sefyllfa derfynol yn sicr o newid yn ystod y ddau fis oedd yn weddill o'r flwyddyn ariannol. Roedd cronfeydd arian parod yn dal yn uchel, ac roedd y cynnydd yn y cyflog i gynorthwyo â Chostau Byw y cyfeirid ato yn y papur eisoes wedi'i gymeradwyo (gweler cofnod 3). Yr oedd y disgwyliad y byddai cynnydd mawr yn y gwariant yn ystod dau fis olaf y flwyddyn yn peri penbleth i'r Cadeirydd, o gymharu â'r patrymau incwm cymharol fychan am yr un cyfnod.

Cyfeiriodd Chris Franks at y cynnydd mawr yn ystod y flwyddyn yn yr incwm a geir gan Lywodraeth Cymru (oddeutu £2.5 miliwn yn fwy na'r gyllideb). Roedd y cynnydd i'w groesawu wrth gwrs, ond roedd yn golygu fod yr ymarfer cyllidebu cychwynnol yn artiffisial braidd.

7. Cyllidebau arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24

Fe wnaeth Steve Nicholls ddwyn sylw ar y ffaith fod y gweddill (£47,000) arfaethedig yn y gyllideb (0.5% o drosiant y flwyddyn) yn gyfystyr â norm y Sefydliad yn achos ymarferion cyllidebu, oherwydd yr oedd yn ofynnol i'r Sefydliad anelu at ganlyniad gwell na dim ond adennill costau. Mewn gwirionedd, cydnabuwyd y golygai ansicrwydd sylweddol y gallai'r canlyniad ar ddiwedd y flwyddyn fod yn wahanol iawn. Er enghraifft, gallai'r posibilrwydd o ehangu *Lluosi* fynd â'r ffigurau i gyfeiriadau cwbl gwahanol.

Roedd Atodiad 1 yn cynnwys croestoriad o ddewisiadau eraill o ran creu incwm ac arbed costau oedd wedi'i ystyried gan uwch reolwyr. Roedd un posibilrwydd diddorol a restrid yno yn ymwneud ag anghysonderau o ran taliadau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol rhwng cynlluniau Gwynedd a Chaerdydd - roedd AOC yn cyfrannu at y ddau ohonynt. **Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo cyllidebau 2023-24 fel oeddent wedi'u cyflwyno.**

8. Argymhelliad i benodi archwilwyr allanol am 5 mlynedd o 2022-23 i 2027-28

Yr argymhelliad yn sgil y broses dendro, a gynhaliwyd yn unol â goruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio ac a eglurid yn y papur ategol, oedd ailbenodi Cwmni Cyfrifwyr Siartredig Baker Knoyle i ymgymryd â gwaith archwilydd allanol dros y 5 mlynedd ddilynol. **Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo hyn**. Diolchodd Chris Franks i Guy Wallace Smith am ei gyfraniad allweddol at y broses ar ran y Pwyllgor.

9. Canlyniadau'r digwyddiad Cynllunio Strategol yn Sir Benfro, 23/24 Mai 2023

Trafodwyd casgliadau yn deillio o'r digwyddiad preswyl yn y ddogfen. Yr oedd y rheolwyr a oedd yn gyfrifol am y cynlluniau gweithredu perthnasol i fod i fynd i'r afael â'r pwyntiau gweithredu ynghylch y polisïau a'r strategaethau amrywiol a grybwyllid yno. Canmolwyd y gwaith o drefnu'r digwyddiad.

10. Cofnodion Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023

Cydnabu'r Cyngor gynnwys y cofnodion, yn cynnwys y ffaith fod dau aelod cyfetholedig newydd wedi ymuno â'r Pwyllgor yn ddiweddar. Yr oedd trafodaeth faith ynghylch cyrsiau cyflogadwyedd wedi cael ei chynnal, ac fe wnaeth Salamatu Fada (Cadeirydd y Pwyllgor erbyn hyn) bwysleisio eu pwysigrwydd o ran cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Gofynnwyd cwestiwn am y ffaith fod y Sefydliad wedi colli'r ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Ynys Môn yn sgil darparwr preifat yn ennill y tendr (penderfyniad a wnaed gan Gyngor Ynys Môn). Roedd hynny wedi deillio o ymarfer tendro, a oedd yn aml yn broses annarogan. Roedd hynny'n ganlyniad anffodus, ond roedd enghreifftiau eraill ymhlith siroedd rhanbarth y Gogledd o ddulliau idiosyncratig o ddosbarthu cyllid Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

11. Cofnodion y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023

Cydnabu'r Cyngor y cofnodion. Cyfeiriodd Steve Nicholls at ddau bwynt yn unig. Yn gyntaf, nododd fod y cynnig newydd i rannu costau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi'i sefydlu; ac yn ail, dywedodd y cafwyd anawsterau wrth geisio rhyddhau arian o gyfrif AOC ym Manc Barclays i'w drosglwyddo i gronfa dan ofal ein rheolwyr buddsoddiadau, Brewin Dolphin.

12. Cofrestr Risgiau Gorffennaf 2023

Fe wnaeth y Cyngor gydnabod fersiwn ddiweddaredig y Gofrestr, ac ni chafwyd unrhyw sylwadau.

13. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Cytunwyd bod y sesiwn gyda thiwtoriaid yn cynnwys cyfraniad gan ddehonglydd BSL ar ddechrau'r cyfarfod wedi bod yn llwyddiannus, yn dechnegol ac o ran y cynnwys. Fodd bynnag, nid oedd neb wedi defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod. Fe wnaeth y nifer gweddol fawr o aelodau absennol ysgogi trafodaeth ynghylch llenwi bylchau yn y Cyngor a'r Pwyllgorau, ac roedd hynny'n destun un o'r camau gweithredu yn y ddogfen DPA (cofnod 5). Crybwyllwyd y buasai'r Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd yn ddarpar lywodraethwr gwerth ei gael.

14. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24

- Dydd Mawrth 26 Medi 2023
- Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2023
- Dydd Mawrth 29 Ionawr 2024
- Dydd Llun 11 Mawrth 2024
- Dydd Mawrth 9 Ebrill 2024 (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)
- Dydd Mercher a Dydd Iau, 22 a 23 Mai 2024 (Digwyddiad Cynllunio Strategol)
- Dydd Gwener 5 Gorffennaf 2024

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 4	Adroddiad y Prif Weithredwr, Gorffennaf 2023	Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo gweddill codiad cyflog 2022-23, fel y gellid ei gynnwys yn nhaliad cyflog mis Gorffennaf.	MB	Gorffennaf 2023
Cofnod 7	Cyllidebau arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24	Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo cyllidebau 2023-24 fel oeddent wedi'u cyflwyno.	MB	Awst 2023
Cofnod 8	Argymhelliad i benodi archwilwyr allanol am 5 mlynedd o 2022-23 i 2027-28	Fe wnaeth y Cyngor dderbyn yr argymhelliad y dylid penodi cwmni Cyfrifwyr Siartredig Baker Knoyle yn archwilwyr allanol dros y 5 mlynedd ddilynol.	MB / Matthew Lloyd	Gorffennaf 2023